CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

*Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Neuadd y Cwrwgl, Llechryd am 7pm ar 9 Ionawr 2023 yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.*

Presennol:
Cadeirydd: Y Cyng Nicky Redmond. Cyngr: Jan Culley , Hywel Davies, Iwan Davies, Ruth Davies, Amanda Edwards, Garethe El Tawab, Colin Lewis, Richard Rose.

CS A Edwards

Clerc

Aelodau'r Cyhoedd: 0

Anfonwyd cofion at y Cyng K Symmons a'r teuluu o glywed y newyddion fod gwraig y Cyng Symmons yn yr ysbyty.

## 1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Roedd ymddiheuriadau wedi dod oddi wrth y Cyngr K Symmons a C Wychwood.

## 2. Datgan Diddordeb ar faterion sy'n codi o'r Agenda

Dim.

**3. Cadarnhau Trefn yr Agenda** a nodi unrhyw eitemau y gellid eu datrys ar gyfer sesiwn gyfrinachol.
Derbyniwyd yr Agenda fel y cafodd ei chyflwyno.

**4. Cadarnhau Cofnodion 05-12-22**

| | | |
|---|---|---|
| Derbyn y cofnodion fel cofnod cywir. | Eiliwyd | |
| Cyng H Davies | Cyng J Culley | Cytunwyd |

**5. Ceisiadau Cynllunio**
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

Mae dogfennau cynllunio i'w gweld yn: https://www.ceredigion.gov.uk/resident/planning-building-control-and-sustainable-drainage-body-sab/planning-building-control/

*Gorfodi Cynllunio*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*Diweddariad LDP2*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

**6. Adroddiad y Cyng Sirol**
Anfonwyd at bawb cyn y cyfarfod.
Cytunodd i ymchwilio i ddarpariaeth biniau graean mewn mannau ar lôn Coedmor, a nodwyd bod dŵr yn llifo ar draws y lôn wrth ymyl y fynedfa i Gwr-coed Uchaf.

**7. Cyllid a Gweinyddu**
*7.1 Taliadau Misol*

| | | |
|---|---|---|
| S E Davies | Cyflog (gros), SC, ffôn, postio | 479.67 |
| Neuadd y Cwrwgl | Hurio'r Neuadd Anf 877 | 20.00 |
| Dŵr Cymru | Dŵr i'r Bloc Toiledau | 274.90 |
| SSE Swalec | Trydan i'r bloc toiledau | 153.16 |
| Danfo | Anfoneb 6780 Tach 22 | 319.50 |

Las Fel y contract

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Derbyn y taliadau fel y cawsant eu cyflwyno | Cytunwyd |

*7.1.2 Cymhwysiad y Banc*
Nodwyd.

*7.2 Cyfarfodydd y dyfodol*
Gweler 7.8.

*7.3 Cofrestru tir*
Yn parhau.

*7.4 Cylchlythyr*
Yn parhau..

*7.5 Diweddaraf am rodd o dir a chytuno ar unrhyw ymateb*
Gofyn am ddiweddariad.

*7.6 Prosiect Cwrteisi a Pharch - Addewid*
https://www.nalc.gov.uk/our-work/civility-and-respect-project
**Gwneud penderfyniad i lofnodi'r addewid cwrteisi pharch.**

| Definition of Civility and Respect |
|---|
| Mae bod yn fonheddig yn golygu cwrteisi a pharch mewn ymddygiad a llefaru ac yn y gair ysgrifenedig.<br><br>Enghreifftiau o ffyrdd y gallwch ddangos parch yw gwrando a rhoi sylw i eraill, ystyried teimladau pobl eraill, dilyn protocolau a rheolau, mynegi gwerthfawrogiad a diolch, a bod yn garedig. |

Mae’r Gymdeithas Genedlaethol Cynghorau Lleol )CGCLl, Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (CCCLl) ac Un Llais Cymru (ULlC) yn credu mai nawr yw’r amser i osod cwrteisi a pharch ar frig yr agenda  chychwyn newid ar gyfer y sector cynghorau lleol.

Wrth i’r Cyngor lofnodi’r addewid, rydym yn dangos bod y Cyngor wedi ymrwymo i drin cynghorwyr, clercod, gweithwyr, y cyhoedd, cynrychiolwyr cyrff sy’n bartneriaid a gwirfoddolwyr  yn gwrtais a chyda pharch yn eu swyddogaeth.

Proses syml yw llofnodi, sy’n golygu bod angen i gynghorwyr gofrestru a chytuno i’r datganiadau dilynol:

| **Datganiad** | **Ticiwch i gytuno** |
|---|---|
| Mae’r cyngor wedi cytuno i drin cynghorwyr, clercod, gweithwyr, y cyhoedd, cynrychiolwyr cyrff sy’n bartneriaid a gwirfoddolwyr  yn gwrtais a chyda pharch yn eu swyddogaeth. | ✓ |
| Bydd y cyngor yn trefnu bob rhaglen hyfforddiant ar waith ar gyfer cynghorwyr a staff. | ✓ |
| Mae’r cyngor wedi llofnodi’r Cod Gweithredu ar gyfer cynghorwyr. | ✓ |
| Mae gan y cyngor drefniadau llywodraethiant da ar waith sy’n cynnwys contractau staff a pholisi cwrteisi yn y gwaith. | ✓ |
| Byd y cyngor yn ymrwymo i chwilio am gymorth proffesiynol yn gynnar os bydd problemau cwrteisi a pharch yn codi. | ✓ |
| Bydd y cyngor yn ymrwymo i dynnu sylw at fwlio a phoenydio pan ac os bydd yn digwydd. | ✓ |
| Bydd y cyngor yn dal i ddysgu oddi wrth arfer da yn y sector ac yn ymdrechu i fod yn batrwm/bencampwr o gyngor. | |
| Mae’r cyngor yn cefnogi’r lobio parhaus am newid yn y ddeddfwriaeth i gefnogi’r Addewid Cwrteisi a Pharch, gan gynnwys cosbau i aelodau etholedig lle bydd yn briodol. | |

| PENDERFYNWYD / /GWEITHREDU | |
|---|---|
| Bod y pwyntiau y tynnwyd sylw atynt yn cael eu derbyn a’r Cyngor yn llofnodi’r Addewid Cwrteisi a Pharch. | Cytunwyd |

*7.7 Arwydd Diffib ym mharc ceir Neuadd y Cwrwgl*
Holi am ddyfynbrisiau.

*7.8 Cyfieithiadau yng nghyfarfodydd y Cyngor*
Roedd y Clerc wedi cysylltu â Chyngor Tref Aberteifi (CTA) a’u cyfieithiad yn  cael ei wneud drwy Zoom, y cyfarfod yn cael ei gynnal yn Gymraeg a’r cyfieithydd yn ymuno â’r cyfarfod  drwy Zoom. Mae’r rhai sydd am gael cyfiieithiad Saesneg  yn dod â’u cyfarpar a’u ffonau pen eu hunain i logio i mewn i Zoom. Roedd y gost, ar sail y costau a roddwyd gan GTA, o £87 (2+.5 awr) i £105 (3awr). Ni fyddai’r cyhoedd sy’n bresennol mewn cyfarfod wyneb yn wyneb yn gallu logio i mewn i’r cyfieithiad , ac roedd y cyfieithydd weithiau’n cael anhawster clywed beth oedd yn  cael ei ddweud mewn cyfarfod wyneb yn wyneb.

Nodwyd bod CERED yn cynnig rhoi benthyg meicroffon a ffonau pen am ddim ar gyfer cyfarfodydd  wyneb yn wyneb, ond nid oedd y Clerc yn gwybod beth fyddai’r trefniadau casglu a dychwelyd.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Cadw'r eitem ar yr agenda a'i hatgyfodi pan fyddai'r Dylluan Gyfarfod wedi ei gosod. Yn y Neuadd. | Cytunwyd |

*7.9 Cynllun 5 mlynedd / Cynllun Lle – Cyng G El Tawab*
Nodwyd bod CSC, cyn Covid, wedi bod yn paratou Cynllun Lle ar gyfer cymunedau yn ne'r Sir.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Gofyn i'r CS A Edwards holi CSC am statws presennol y cynllun. | Cytunwyd |

*Cynllun 5 mlynedd*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Y gallai'r Pecyn Cymorth (gweler eitem 8) helpu tynnu sylw at faterion I'w hystyried mewn cynllun 5 mlynedd. | Cytunwyd |

**8. Pwyllgorau**
*Y Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethiant ar gyfer Cynghorau Trefn a Chymuned*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Cynghr J Culley, R Davies ac A Edwards yn cael eu penodi'n aelodau o'r Pwyllgor . Bod y cyfarfod cyntaf yn digwydd ar 13-02-23 a hwnnw'n gyfyngedig i 1 awr i adolygu sut y gallai'r gwaith gael ei drefnu ar gyfer cyfarfodydd y cyngor yn y dyfodol. | Cytunwyd |

**9. Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
*9.1 Meysydd Gweithredu – Priffyrdd i gynnwys Croes-y-llan*
*Nodwyd bod CS A Edwards yn holi am y ddogfen briffyrdd a anfonwyd at y Sir.*

Nid oedd yn glir a/pryd fyddai ymgynghori cyhoeddus yn digwydd ar y cynnig i ostwng terfynau cyflymdra i 20mya yn unol â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru.

*9.2 Llwybrau troed / mannau agored*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*9.3 Pont Llechryd / yr Afon – Nodi'r sefyllfa bresennol a chytuno ar unrhyw gamau pellach*
Cytunwyd y gallai ceisio cael y prennau a gafodd eu tynnu allan o'r bont i'w defnyddio gan y trigolion fod yn broses anodd a drud debyg iawn.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Ni fyddai'r cynnig yn symud ymlaen. | Cytunwyd |

Er bod y sbwriel wedi ei glirio o'r bont ym mis Hydref, nodwyd bod bonion coed a phrysgwydd ychwanegol wedi crynhoi. Byddai CS A Edwards yn holi CNC am hyn.

**10. Amwynderau**
*10.1 Bloc Toiledau – dogfennau tenantiaeth yn dal i gael eu cytuno*
Roedd y Clerc wedi cysylltu â'r Cyfieithwyr am ddyddiad i ddrafft o'r brydles fod ar gael. Roedd Danfo yn gwneud gwaith plymio yn y bloc oherwydd bod pibelli wedi hollti yn y tywydd oer..

*10.2 Man / Cae Chwarae – pob penderfyniad yn amodol ar ei gymeradwyo gan* Gymdeithas Cae Chwarae Llechryd

*10.2.1 Gwaith heb ei wneud gan gynnwys gwaith trwsio o archwiliad ROSPA 2022*
Nodwyd.

*10.2.2 Cyflwr llwybr y ffin*
Trafodwyd awgrymiadau i ddatrys problemau'r llwybr sy'n suddo. Byddai symud y llwybr ymhellach i

mewn i'r cae yn datrys y broblem, ond byddai angen trafod rhyw ffordd i gynnal y ffin, fel plannu. Gofynnwyd i'r Cynghorwyr ymweld â'r safle i weld y problemau.

*10.2.3 Baw Cŵn*
*Roedd baw cŵn yn parhau ar ystâd Maesyderi ac ar y cae chwarae.*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Adroddiad i CSC | Cytunwyd |

Diolchwyd i'r Cyng H Davies am osod mwy o hysbysiadau atal baw cŵn i fyny.

*10.2.4 Adnewyddu'r ffrâm ddringo – bydd yn dal yn eiddo i'r CC*
Roedd y Clerc wedi anfon hanes llawn y gŵyn at Sovereign ac wedi gofyn am ddiweddariad llawn am yr holl faterion sydd heb eu datrys.

*10.3 Eglwys y Groes Sanctaidd, Llechryd*
Roedd yn pensaer wedi ei benodi a byddai gwybodaeth bellach yn cael ei darparu.

*10.4 Adeilad y Mileniwm*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*10.5 Mainc goffa neu fan i drigolion*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Archebu mainc. Cytunodd y Cyng R Davies yn garedig i dderbyn y fainc oherwydd byddai angen ei chadw yn y safle a ddewiswyd. | Cytunwyd |

*10.6 Darparu Rhandiroedd*
Yn parhau.

*10.7 Cysgodfannau bws*
Diolchwyd i'r Cyng R Rose am osod yr hysbysfwrdd.

*10.8* Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.
*10.9 Hysbysfyrddau*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Derbyn y dyfynbris o £222.90 am ddrws newydd. | Cytunwyd |

*10.10 Biniau newydd (postyn, clawr, man chwarae)*
Diolchwyd i'r Cyng R Rose am osod y bin sbwriel newydd.

*10.11 Llyfrgell gymunedol – Cyng A Edwards*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Byddai'r Cyng A Edwards, pe bae cypyrddau ail law priodol yn dod ar gael, yn eu prynu ar gyfer llyfrgell gymunedol. Cyfyngu'r gwario i £100. | Cytunwyd |

*10.12 Sgwrs am ddraenogod, a 'drysau' – Cyng G El Tawab*
Dywedodd y Clerc, er iddi edrych yn gyflym drwy ddogfennau sydd ar gael, nad oedd wedi dod o hyd i ddolen i brynu drysau i ddraenogod.

**11. Digwyddiadau**
*11.1 Glanhau Afon Teifi*

*11.2 Codi sbwriel*
9.30am, 19 Chwefror 2023, cyfarfod yn Neuadd y Cwrwgl. Y Clerc y ddarparu asesiad risg.

**12. Adroddiadau cyfarfodydd**

Derbyn adroddiadau.
*12.1 Cyng R Davies – Llywodraethwyr Ysgol*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.
*12.2 Cyng A Edwards – Neuadd y Cwrwgl*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.
*12.3 Cyngr A Edwards ac R Davies – Cyfarfod PACT*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.
*12.4 Grŵp Gwytnwch (i gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am lifogydd)*
Nodwyd bod lefelau'r afon yn cael eu monitro oherwydd y glaw'n ddiweddar.
*12.5 Cyng J Culley Pwyllgor rhanbarthol Un Llais Cymru*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.
*12.6 Cyng J Culley Pwyllgor Moeseg a Safonau*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

**13. Gohebiaeth (i gynnwys dogfennau ymgynghori heb eu cynnwys dan unrhyw bennawd arall)**
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

**14. Materion Personol Cyfnewid Gwybodaeth gan Gynghorwyr**
Y Clerc i gysylltu â'r Hen Ysgoldy, Llangoedmor i weld a oedd wedi agor i'w hurio, ac os ydoedd a oedd yno gysylltiad wifi neu a oedd bwriad i'w gael.

**15. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 6 Chwefror 2023**

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.40pm.*